**CYFARFOD Y CYNGOR** **19eg GORFFENNAF 2017**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. **YMDDIHEURIADAU**

- Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

- Cydnabod newidiadau i sut y caiff ymddiheuriadau am absenoldeb eu cofnodi yn y dyfodol, gan na fydd y rheswm am absenoldeb yn cael ei ddatgan yn y Cofnodion bellach.

2. **COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 21ain Mehefin 2017 | - Rhifau Cofnod 14-24 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 21ain Mehefin 2017 | - Rhifau Cofnod 4-6 |
| Pwyllgor Cynlluno | - | 5ed Gorffennaf 2017 | - Rhifau Cofno 7-9 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 5ed Gorffennaf 2017 | - Rhifau Cofnod 28-43 |

3. **ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. **CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â materion plismona lleol a nodwyd i'r Aelodau.

**[DS. Rhoddwyd gwahoddiad ar wahân i'r Prif Gwnstabl a/neu Gomisiynydd Troseddau Heddlu Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Medi/Hydref 2017 i drafod lefelau uwch troseddau mawr sy'n digwydd yn Rhyl]**

5. **AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO) (GARNETT AVENUE, FFYNNONGROYW ROAD A KINGSTON ROAD, Y RHYL) 201**

Derbyn y ddogfen ymgynghori ddrafft a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref (copi'n amgaeëdig)**.**

**7. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**8. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. MENTER GYMDEITHASOL YMDDIRIEDOLAETH TIR CYMUNEDOL AR ABBEY STREET**

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**11. SEFYDLIAD - CYNNYDD COST BYW**

Hysbysu'r Cyngor o'r cytundeb cyflog 2017 a gofyn am awdurdod i'w weithredu.

**12. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**13. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mwen ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 20fed Gorffennaf 2017 hyd at 6ed Medi 2017:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd Pwyllgor CSG |
| Holl Faterion Eraill | - | Cadeirydd a/neu Is-gaderydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.